Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2020 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro


Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1999A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae’r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw’r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae’r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â’r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 15

Cynllunio gweithredol 20

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i’r argymhellion archwilio 26

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd). Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Digwyddodd gwaith Asesu Strwythuredig eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achosir gan bandemig COVID-19. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos y Bwrdd Iechyd, a oedd yn wynebu heriau niferus yn dilyn galw sylweddol o ganlyniad i achosion COVID-19 yn gynnar yn y brig cyntaf, a arweiniodd yn drasig at rai marwolaethau. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi'r system ar gyfer yr hwrdd disgwyliedig o achosion COVID-19. Roedd y fframwaith yn cynnwys rhoi'r gorau i weithgarwch wedi'i gynllunio difrys a llacio targedau a threfniadau monitro ar draws y system iechyd a gofal. Cyflwynwyd trefniadau ariannu brys hefyd i hwyluso'r ystod eang o gamau gweithredu yr oedd eu hangen i ymateb ar frys i bandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21 a'r rheiny'n cael eu hategu gan ganllawiau chwarterol a oedd yn nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio'r ymateb i gam nesaf y pandemig, ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, a symud tuag at adferiad graddol gwasanaethau rheolaidd.

4 Cynlluniwyd ein gwaith[1] yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig i sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Mae ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol[2] lle'r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

5 Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a

[1] Cafodd y broses o gyflawni ein gwaith ei chydlynu gydag adolygiad cyflym y tîm archwilio mewnol o lywodraethu sy'n cynnwys profi pellach ar reolaethau allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

[2] Mae'r argymhellion blaenorol i'w gweld yn ein hadroddiad ar gyfer 2019. Gellir dod o hyn i ymateb y rheolwyr i'n hargymhellion yma.

- chynllunio gweithredol: i ategu'r ymateb parhaus i'r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

## Negeseuon allweddol

6 Aeth y Bwrdd Iechyd ati'n gyflym i addasu ei drefniadau llywodraethu i gefnogi prosesau penderfynu ystwyth a chyflym a sicrhau rheolaeth weithredol effeithiol yn ystod y pandemig. Gallai'r Bwrdd a'i Bwyllgorau fod wedi cael eu defnyddio i'r eithaf, serch hynny, i graffu a darparu sicrwydd ar yr holl faterion perthnasol yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig ym meysydd ansawdd, diogelwch a'r gweithlu. Cymerwyd camau rhesymol i gynnal busnes y Bwrdd mewn ffordd agored; eto roedd cyfle ar gyfer adroddiadau cyhoeddus manylach ar yr holl faterion perthnasol yn ystod y pandemig. Roedd y cyfathrebu gyda staff, y cyhoedd a phartneriaid yn ystod y pandemig yn effeithiol. Bu Bwrdd sefydlog yn ystod y pandemig. Gellid bod wedi mynd ati'n llawn i ddefnyddio cyfleoedd i gefnogi datblygiad a chyfoethogi rôl Aelodau Annibynnol. Mae rhaglen dysgu gwersi wedi cael ei chychwyn ac nid yw'r Bwrdd wedi myfyrio eto ynghylch ei brofiadau o lywodraethu yn ystod y pandemig.

7 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fantoli ei gyfrifon ar gyfer 2019-20. Ond, gyda diffyg cronnus o £37 miliwn ar gyfer y cyfnod 2017-2020, methodd â chyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon dros dair blynedd. Mae gan y Bwrdd Iechyd fwriadau eglur i fantoli'r cyfrifon dros y tair blynedd nesaf. Heb gyllid ychwanegol, mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2020-21 bellach yn debygol o fod yn un o ddiffyg sylweddol o ganlyniad i COVID-19. Cafodd rheolaethau a threfniadau monitro ac adrodd ariannol effeithiol eu cynnal yn ystod y pandemig. Rhoddwyd trefniadau ar waith hefyd i dracio gwariant ar COVID-19 yn glir; eto, mae cyfle i drefniadau monitro ac adrodd fod yn fwyfwy tryloyw.

8 Mae cynlluniau chwarterol y Bwrdd Iechyd wedi cael eu goleuo gan ymarferion modelu data cadarn ac wedi cael eu datblygu mewn ffordd amserol, er mai cyfyngedig fu'r ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fe wnaeth Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd ystyried cynlluniau chwarter un a dau cyn eu cyflwyno, a chawsant eu cymeradwyo'n ôl-weithredol gan y Bwrdd. Fe ymatebodd y Bwrdd Iechyd yn gyflym i sicrhau bod digon o adnoddau yn eu lle i gyflawni amcanion cynllunio chwarter un. Fodd bynnag, mae defnydd parhaus o ysbyty annibynnol gan y Bwrdd Iechyd yn unig yn ddibyniaeth allweddol o ran cyflawni gweithgarwch wedi'i gynllunio yn ystod chwarter dau, ac mae risgiau'n dal i fodoli os ceir ail frig COVID-19. Mae trefniadau wedi'u symleiddio ar gyfer adrodd wrth y Bwrdd ar berfformiad wedi gweithredu yn ystod y pandemig. Wrth i fesurau rheoli perfformiad ddechrau cael eu hadfer, mae angen datblygu trefniadau adrodd a chraffu'r Bwrdd mewn perthynas â chyflawni'r cynlluniau gweithredol.

# Argymhellion

9 Caiff argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn ei grynhoi yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2020**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Dysgu o lywodraethu yn ystod COVID-19 i gryfhau llywodraethu yn y dyfodol**<br>A1 Gan gydnabod yr heriau niferus a wynebwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod brig cyntaf COVID-19, dylai'r Bwrdd fyfyrio ynghylch ei brofiadau o lywodraethu yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu yn y dyfodol yn gyffredinol ac os ceir ail frig COVID-19. Wrth fyfyrio ynghylch ei brofiadau, dylai'r Bwrdd ganolbwyntio'n arbennig ar:<br>a. ystyried yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn na weithiodd cystal, ac adnabod beth fyddai'n ei wneud yn wahanol pe ceid ail frig COVID-19;<br>b. cadarnhau pa ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd yn ystod y pandemig y mae arno eisiau eu cadw yn y dyfodol;<br>c. cefnogi datblygiad y cnewyllyn llawn o Aelodau Annibynnol yn ogystal â chyfoethogi eu rôl a'u mewnbwn; a<br>ch. gwella trefniadau adrodd a thryloywder y Bwrdd. |

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

10 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn ac yntau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achosir gan y pandemig.

11 Canfuom y **bu rheolaeth weithredol dda a threfniadau penderfynu ystwyth yn ystod pandemig er gwaethaf rhai cyfyngiadau o ran tryloywder trefniadau craffu, sicrwydd, a throsolwg ar lywodraethu ar y cyfan.**

### Cynnal busnes yn effeithiol

#### Cafodd trefniadau llywodraethu diwygiedig eu sefydlu'n gyflym i alluogi prosesau penderfynu ymatebol a rheolaeth weithredol effeithiol, ond gellid bod wedi cyfoethogi craffu a sicrwydd cyhoeddus ar lefel y Bwrdd yn ystod y cyfnod

#### Fe wnaeth trefniadau llywodraethu diwygiedig gefnogi prosesau penderfynu ystwyth a chyflym yn ystod y pandemig a sicrhau rheolaeth weithredol effeithiol

12 Symudodd y Bwrdd Iechyd yn gyflym i ddiwygio ei drefniadau llywodraethu a'i strwythurau rheoli mewn ymateb i'r pandemig. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflwyno strwythur Gorchymyn a Rheoli Aur o'r brig i lawr yn y dull traddodiadol i reoli a chydgysylltu ei ymateb i'r pandemig. Yn lle hynny, sefydlog **Strwythur Rheoli COVID-19** ym mis Mawrth 2020 i'w alluogi i fabwysiadu dull mwy cynaliadwy, cynhwysol, hyblyg ac o'r gwaelod i fyny. Fe wnaeth y dull hwn gefnogi rheolaeth weithredol effeithiol, hwyluso prosesau penderfynu ystwyth a chyflym, a sicrhau cryn dipyn o berchnogaeth glinigol ar benderfyniadau yn ystod y pandemig.

13 Roedd Strwythur Rheoli COVID-19 yn cynnwys:

- **Grŵp Strategol**, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, a oedd yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos i darparu cyfeiriad a phroses benderfynu strategol.
- **Grŵp Gweithredol**, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu, a oedd yn cyfarfod yn ddyddiol i reoli a chydgysylltu'r ymateb o ddydd i ddydd i'r pandemig.
- **Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd**, a oedd yn gweithredu fel Grŵp Gweithredu gan y Cadeirydd ac yn cwrdd yn wythnosol i ddarparu trefniadau craffu a llywodraethu dros y broses benderfynu yn ogystal â darparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd bod hyn yn digwydd. Roedd aelodaeth y grŵp yn gyfyngedig i'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr, a dau Aelod Annibynnol – yr Aelod Annibynnol (Cyfreithiol), a'r Aelod Annibynnol (Cyllid) a ddetholwyd oherwydd eu harbenigedd ar faterion cyfreithiol ac ariannol.

- pedwar **Grŵp Rheoli Gweithredol** ar safleoedd (a ddisodlodd y Byrddau Clinigol dros dro), a chyfres o **Gelloedd Cynllunio** a oedd yn canolbwyntio ar faterion penodol megis y gweithlu, cynllunio capasiti, a chyfathrebu.

14 Cafodd nifer o newidiadau i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd eu cymeradwyo gan Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd ym mis Mawrth 2020, a chawsant eu cymeradwyo'n ôl-weithredol gan y Bwrdd ym mis Mai 2020, gan gynnwys:

- cytuno ar ddiwygiadau dros dro i rannau o'r Rheolau Sefydlog;
- cyflwyno fframwaith awdurdodi a oedd yn nodi trefniadau i ddirprwyo gwariant refeniw a gwariant cyfalaf yn unol â Chynllun Dirprwyo, Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd (heb gynnwys ysbyty maes Calon y Ddraig); ac
- ymgymeriad i gadw agendâu cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau i isafswm.

15 Ni wnaed unrhyw newidiadau i Gynllun Dirprwyo'r Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, fe barhaodd y Bwrdd Iechyd i weithredu ar y sail y byddai dirprwyon yn gweithredu ar lefel uwch yn absenoldeb Arweinwyr Gweithredol a Chadeiryddion Pwyllgorau.

16 Wrth ddiwygio ei drefniadau llywodraethu, ni chyfeiriodd y Bwrdd Iechyd at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyflawni cyfrifoldebau Pwyllgorau Byrddau yn ystod COVID-19[3] yn rhannol am na chawsant eu cyhoeddi tan ddiwedd mis Ebrill 2020.

## Ni chafodd y Bwrdd a'i Bwyllgorau eu defnyddio i'r eithaf i ddarparu trefniadau craffu a sicrwydd ar yr holl faterion perthnasol yn ystod y pandemig

17 Er bod rolau a phwerau penderfynu Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd, y Grŵp Strategol, a'r Grŵp Gweithredol yn glir ac wedi'u dogfennu'n dda, nid oedd rôl y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn ystod y pandemig wedi'i diffinio mor glir.

18 Parhaodd y Bwrdd i gwrdd yn fisol – gan newid bob yn ail rhwng Diwrnodau Datblygu'r Bwrdd a chyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol. O fis Ebrill 2020, roedd Diwrnodau Datblygu'r Bwrdd yn cael eu defnyddio at ei gilydd i amlygu a thrafod ystod o destunau a oedd yn ymwneud â'r pandemig. Fodd bynnag, nid oes cofnod cyhoeddus o'r cyfarfodydd hyn gan eu bod wedi cael eu cynnal yn breifat. Daeth papurau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 i fod ar gael i'r cyhoedd pan gyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol ym mis Mai 2020. Fe ymdriniwyd â llawer o faterion a oedd yn ymwneud ag ymateb y Bwrdd Iechyd i'r pandemig gan Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd. Cafodd cofnodion y cyfarfodydd hyn eu rhannu gydag Aelodau Annibynnol (gweler **paragraff 34** isod) a'u cynnwys ym mhapurau cyfarfodydd preifat y Bwrdd.

19 Fe barhaodd y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad i gwrdd fel a amserlennwyd. Cafodd agendâu'r

[3] Nodyn cyfarwyddyd: cyflawni cyfrifoldebau pwyllgorau byrddau yn ystod y cyfnod ymateb COVID-19

Pwyllgor Cyllid eu haddasu'n sylweddol i ganolbwyntio ar wariant a risgiau ariannol a oedd yn ymwneud â COVID-19. Fodd bynnag, cafodd agendâu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad eu haddasu'n rhannol yn unig i ystyried materion perthnasol a oedd yn ymwneud â COVID-19, ac ni chafodd agendâu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd eu haddasu'n sylweddol i ganolbwyntio ar fusnes hanfodol yn unig. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith bod y pwyllgorau hyn wedi cynnal rhai o'u cyfarfodydd cyn cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyflawni cyfrifoldebau Pwyllgorau Byrddau yn ystod COVID-19 ym mis Ebrill 2020.

20 Cafodd cyfarfodydd yr holl Bwyllgorau eraill eu tynnu'n ôl, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnull yn ôl yr angen i ystyried materion penodol yn ystod y pandemig. Er enghraifft, cynullwyd cyfarfod arbennig gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ym mis Ebrill 2020 i gael trafodaeth benodol am Gyfarpar Diogelwch Personol. Fodd bynnag, nid oes cofnod o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

21 Mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn ystod y pandemig wedi bod yn dda ar y cyfan. Fe welsom ni yn ein harsylwadau fod ffocws pendant i'r trafodaethau a bod cyfarfodydd yn rhedeg ar amser. Gwelsom hefyd dystiolaeth o graffu a herio effeithiol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau ar faterion a oedd yn ymwneud â COVID-19. Lle mae adroddiadau ar faterion sy'n ymwneud â COVID-19 wedi cael eu paratoi i ategu prosesau penderfynu a darparu sicrwydd, maent wedi bod yn amserol ac yn gynhwysfawr. Mae'r Bwrdd a Phwyllgorau wedi parhau i ddefnyddio Logiau o Gamau Gweithredu ac fe wnaed penderfyniadau i ohirio rhai materion penodol tan adeg fwy priodol.

### Cymerodd y Bwrdd gamau rhesymol i gynnal ei fusnes mewn ffordd agored, ond fe allai fod wedi cyhoeddi adroddiadau cyhoeddus manylach ar yr holl faterion perthnasol yn ystod y pandemig

22 Yn sgîl y pandemig, nid yw'r Bwrdd a Phwyllgorau wedi gallu cynnal cyfarfodydd yng ngŵydd y cyhoedd. Felly, fe symudodd y Bwrdd Iechyd yn gyflym i gynnal cyfarfodydd rhithwir yn lle hynny. Fodd bynnag, ni fu cyfarfodydd rhithwir yn hygyrch i'r cyhoedd tan fis Gorffennaf pan gafodd cyfarfod y Bwrdd ei recordio a'i roi ar sianel YouTube y Bwrdd Iechyd o fewn 24 awr i fod ar gael i'w wylio.

23 Er gwaethaf materion cychwynnol a oedd yn ymwneud ag agweddai technegol a chysylltedd, mae cyfarfodydd rhithwir wedi bod yn gweithredu'n weddol dda, gydag aelodau'r Bwrdd yn dilyn moeseg cyfarfodydd rhithwir ac yn defnyddio nodweddion ar feddalwedd i godi cwestiynau a rhannu gwybodaeth.

24 Mae papurau ar gyfer y Bwrdd a Phwyllgorau y cyfeirir atynt ym **mharagraff 19** uchod wedi dal i gael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd yn y modd arferol – ddeng niwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd a saith niwrnod cyn cyfarfod Pwyllgor. Mae cydymffurfiaeth â'r safonau hyn yn ystod y pandemig wedi bod yn dda, gyda dim ond nifer fach o achosion o beidio â chydymffurfio.

25 Fel rhan o'i ymrwymiad i hwyluso cymaint o dryloywder a natur mor agored â phosibl yn ystod y pandemig, fe gynhyrchodd ac fe gyhoeddodd y Bwrdd Iechyd gofnod o gyfarfodydd y Bwrdd ar ei wefan o fewn tridiau. Fodd bynnag, rhoddodd y gorau i'r arfer hwn ym mis Gorffennaf 2020 pan ddarparodd recordiad o gyfarfod y Bwrdd ar ei sianel YouTube.

26 Mae cofnodion yn darparu crynodeb manwl o drafodaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau. Mae cwestiynau a godir gan Aelodau Annibynnol yn cael eu cofnodi'n dda ynghyd â'r ymatebion a ddarperir gan yr Arweinwyr Gweithredol perthnasol. Lle darparwyd adroddiadau ar lafar mewn cyfarfodydd, mae'r cofnodion yn darparu crynodeb manwl o'r prif bwyntiau a gyflëwyd yn yr adroddiad llafar a thrafodaethau dilynol y Bwrdd neu'r Pwyllgor.

27 Nid yw'r papurau ar gyfer cyfarfodydd Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd wedi bod yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd gan felly gyfyngu ar gyfleoedd i fod yn agored ac yn dryloyw i'r cyhoedd yn ystod y pandemig. Yn lle hynny, mae'r penderfyniadau a wnaed gan Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd a'r Grŵp Strategol wedi bod yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd fel rhan o Adroddiad y Cadeirydd ar gyfer craffu a chymeradwyaeth ôl-weithredol.

## Mae cyfathrebu gyda staff, y cyhoedd, a phartneriaid yn ystod y pandemig wedi bod yn effeithiol, ac mae cynlluniau yn eu lle i gyfoethogi ymgysylltiad y Bwrdd Iechyd â'r CIC yn ystod y cyfnod adfer

28 Bu'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ystod o ddulliau a phlatfformau cyfathrebu i hysbysu staff, y cyhoedd a'i bartneriaid yn gyson yn ystod y pandemig.

29 Bu cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn cwrdd yn wythnosol gyda'u partneriaid yn y ddau awdurdod lleol, ac roedd papurau briffio ar gyfer Aelodau Seneddol lleol ac Aelodau lleol y Senedd yn cael eu darparu bob pythefnos.

30 Fe barhaodd y cyfathrebu anffurfiol rheolaidd gyda'r CIC ar lefelau'r Byrddau Gweithredol a Chlinigol. Mae'r CIC wedi bod yn cyfranogi yng nghyfarfodydd y Bwrdd hefyd ac roedd log o newidiadau i wasanaethau'n cael ei rannu gyda'r CIC yn wythnosol. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i wella'r mod dy mae'n ymgysylltu â'r CIC yn ystod y cyfnod adref (gweler **paragraff 86**).

## Bu Bwrdd cymharol sefydlog yn ystod y pandemig, er na aethpwyd ati'n llawn i ddefnyddio cyfleoedd i hysbysu, cynnwys a defnyddio Aelodau Annibynnol, ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth

31 Bu rhai newidiadau i gyfansoddiad y Bwrdd dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys penodi Is-Gadeirydd i swydd y Cadeirydd yn barhaol ym mis Mehefin 2020, a phenodi Aelod Annibynnol (Cyfalaf ac Ystadau) newydd ym mis Chwefror 2020. Mae'r Aelod Annibynnol (Cyfreithiol) yn cyflawni rôl yr Is-Gadeirydd ar sail interim. Nid yw'r newidiadau hyn wedi cael effaith andwyol ar sefydlogrwydd y Bwrdd.

32 Er mwyn cynnal sefydlogrwydd y Pwyllgorau, fe barhaodd yr Aelod Annibynnol (Cyllid) i Gadeirio'r Pwyllgor Cyllid tan fis Mai ac fe barhaodd Cadeirydd y Bwrdd fel Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni. Mae'r Aelod Annibynnol (Cyfalaf ac Ystadau) bellach wedi cymryd drosodd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac mae'r Is-Gadeirydd Interim wedi cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni. Er bod camau wedi cael eu cymryd i gryfhau capasiti pwyllgorau trwy gynyddu eu haelodaeth, gellid gwella presenoldeb yng nghyfarfodydd rhai pwyllgorau.

33 Er bod y Cadeirydd wedi penodi dirprwy cyntaf ac ail ddirprwy (yr Is-Gadeirydd Interim a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn y drefn honno) i sicrhau parhad busnes, ni chafodd y trefniadau hyn eu dogfennu'n ffurfiol a'u cyfleu i Aelodau Annibynnol eraill.

34 Sefydlodd y Cadeirydd Grŵp WhatsApp pwrpasol i hwyluso'r broses o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth gydag Aelodau Annibynnol yn ystod y pandemig. Sicrhaodd y Cadeirydd hefyd fod cofnodion Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd yn cael eu rhannu gyda hwy mewn modd amserol. Defnyddiwyd diwrnodau Datblygu'r Bwrdd i friffio Aelodau Annibynnol ar ystod o destunau a oedd yn ymwneud â'r pandemig. Er gwaethaf hyn, nid yw'r holl Aelodau Annibynnol yn teimlo'u bod wedi cael eu briffio a chael diweddariadau am yr holl faterion perthnasol mewn modd amserol.

35 Ni chafodd cyfleoedd i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a chydnerthedd ar draws ei gnewyllyn o Aelodau Annibynnol eu dilyn yn llawn gan y Bwrdd Iechyd trwy, er enghraifft, roi anogaeth brwd i aelodau'r pwyllgorau a oedd wedi'u tynnu'n ôl i gyfranogi mewn pwyllgorau eraill yn ystod y cyfnod. Yn yr un modd, nid aethpwyd ar drywydd cyfleoedd i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth Is-Gadeiryddion Pwyllgorau trwy, er enghraifft, eu cynnwys yn llawn yn y broses o bennu agendâu. Ar ben hynny, roedd cyfle i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o ddefnydd o Hyrwyddwyr y Bwrdd i gefnogi ei ymateb i'r pandemig. Wrth fyfyrio ynghylch ei brofiadau o lywodraethu yn ystod y pandemig, dylai'r Bwrdd ystyried adnabod cyfleoedd i gefnogi datblygiad y cnewyllyn llawn o Aelodau Annibynnol, yn ogystal â gwella'u rôl a'u mewnbwn.

## Mae rhaglen o ddysgu wedi cael ei chychwyn, ond nid yw'r Bwrdd wedi myfyrio eto ynghylch ei brofiadau o lywodraethu yn ystod y pandemig

36 Mae'r trefniadau llywodraethu diwygiedig wedi bod yn cael eu hadolygu'n gyson gan Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd gyda chymorth y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Fodd bynnag, cyfyngedig fu'r trosolwg ar y trefniadau hyn ar lefel y Bwrdd ers i'r Bwrdd ystyried y trefniadau llywodraethu diwygiedig ym mis Mai 2020.

37 Mae Rhaglen Ddysgu wedi cael ei sefydlu ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau myfyrio ynghylch ffyrdd newydd o weithio ac arloesi ar lefel weithredol yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd wedi myfyrio eto ynghylch ei brofiadau o lywodraethu yn ystod y pandemig. Mae cyfle i'r Bwrdd ddysgu o'i brodiadau er

mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu yn y dyfodol, yn gyffredinol ac os ceir ail frig COVID-19.

38 Mae'r Bwrdd wedi cynhyrchu ei Adroddiad Atebolrwydd 2019-20 ac mae'r Pwyllgorau wedi cyhoeddi eu Hadroddiadau Blynyddol ar gyfer yr un cyfnod. Fodd bynnag, oherwydd amseriad yr ymateb i COVID-19, nid yw'r Bwrdd wedi bod mewn sefyllfa eto i gwblhau pob agwedd ar ei raglen adolygu llywodraethu flynyddol, megis asesu ei gydymffurfiaeth â **Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Canolog: Cod Arfer Da** Trysorlys EM.

## Risg a Systemau Sicrwydd

### Roedd trefniadau rheoli risg effeithiol yn gweithredu yn ystod y pandemig, er y gallai adroddiadau sicrwydd ar ansawdd, diogelwch, y gweithlu a lles staff fod wedi cynnwys ffocws cryfach

#### Cymerwyd camau priodol i addasu trefniadau rheoli risg yn ystod y pandemig, ond mae cyfle i gryfhau trefniadau corfforaethol ymhellach

39 Cyflwynwyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar wahân i gofnodi, rheoli a lliniaru'r risgiau strategol sy'n ymwneud â COVID-19. Mae gan yr holl risgiau strategol Arweinydd Gweithredol ac maent wedi cael eu haseinio i Bwyllgorau perthnasol y Bwrdd. Mae risgiau gweithredol allweddol sy'n ymwneud â COVID-19 wedi cael eu cofnodi a'u rheoli trwy'r Cofrestrau Risgiau a gedwir gan y pedair Canolfan Reoli a sefydlwyd i ymdrin â galwadau gweithredol yn ystod y pandemig. Roedd y Cofrestrau Risgiau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n wythnosol ac roedd adroddiadau arnynt yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Strategol.

40 Er bod Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd a'r Bwrdd wedi craffu ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar gyfer COVID-19, nid yw'r Pwyllgorau perthnasol wedi adolygu risgiau'r strategol sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn fanwl eto. O ganlyniad, nid ydynt wedi bod mewn sefyllfa i ddarparu sicrwydd pellach ar gyfer y Bwrdd. Ym mis Gorffennaf 2020, fe gytunodd y Bwrdd i uno Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar gyfer COVID-19 â Fframwaith Sicrwydd safonol y Bwrdd i greu un rhestr o'r holl risgiau strategol. Ni wnaed unrhyw newidiadau i barodrwydd y Bwrdd Iechyd i dderbyn risg.

41 Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, sy'n galluogi'r Bwrdd i gynnal trosolwg ar y risgiau gweithredol allweddol gan y Byrddau Clinigol a'r Cyfarwyddiaethau Corfforaethol, wedi cael ei hehangu i gynnwys risgiau gweithredol allweddol y pedair Canolfan Reoli. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cynnwys y risgiau hynny sydd â sgôr o 15 ac uwch, ac mae pob yn wedi'i chysylltu â'r risg(iau) strategol b/perthnasol yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Cafodd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei hadolygu gan y Bwrdd yn ei gyfarfod preifat ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r Pwyllgor Ariannol wedi cynnal trosolwg effeithiol ar y gofrestr risgiau

ariannol a’r gofrestr risgiau ariannol benodol a grëwyd ar gyfer Ysbyty Calon y Ddraig (gweler **paragraff 76** am ragor o fanylion).

42 Mae systemau rheoli risg wedi cael eu gwella ac mae strwythurau cynhwysfawr yn eu lle bellach i adnabod a rheoli risg. Fodd bynnag, mae cyfle i gryfhau’r trefniadau hyn ymhellach. Mae’r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o hyn ac mae’n sefydlu trefniadau i wella a sefydlu trefniadau rheoli risg ar draws Byrddau Clinigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol trwy, er enghraifft, gyflwyno rhaglen o addysg a hyfforddiant mewn perthynas â’r Polisi Rheoli Risg.

### Er bod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i dracio argymhellion archwilio yn ystod y pandemig, mae nifer cyffredinol yr argymhellion sy’n dal heb gael eu rhoi ar waith yn dal i fod yn uchel

43 Fe barhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i gael ac adolygu adroddiadau ar yr offeryn tracio yn ystod y pandemig. Mae’r adroddiadau, nad ydynt wedi cael eu haddasu yn ystod y pandemig yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, yn nodi cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran ymateb i’r holl argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru ers 2017-18. Fodd bynnag, ychydig o graffu a herio fu ar yr adroddiadau hyn gan Aelodau Annibynnol.

44 Er y gwnaed peth cynnydd o ran mynd i’r afael ag argymhellion hanesyddol yn ystod y pandemig, mae nifer cyffredinol yr argymhellion sy’n dal heb gael eu rhoi ar waith yn dal i fod yn uchel. Ym mis Mehefin 2020, roedd cyfanswm o 226 o argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn dal heb gael eu rhoi ar waith a chyfanswm o 31 o argymhellion Archwilio Cymru a oedd yn dal heb gael eu rhoi ar waith.

45 Fe barhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i gael Adroddiadau ar Gynnydd gydag Argymhellion Archwilio Mewnol. Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a chytuno ar addasiadau i’r rhaglen fel a argymhellwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol oherwydd effaith COVID-19. Fe barhaodd y Pwyllgor i gael Adroddiadau Archwilio Mewnol yn ystod y pandemig hefyd. Cyflwynwyd rhai adroddiadau ar ffurf fersiynau drafft oherwydd effaith COVID-19 ar gapasiti a threfniadau gweithio’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

### Cynhaliwyd ffocws cryf ar ansawdd a diogelwch ar lefel weithredol yn ystod y pandemig, ond gellid bod wedi darparu sicrwydd cryfach ar gyfer y Bwrdd

46 Fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd ffocws cryf ar ansawdd a diogelwch ar lefel weithredol yn ystod y pandemig. Roedd materion ansawdd a diogelwch yn cael eu hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Grŵp Gweithredol a’r Grŵp Strategol, gyda’r cyntaf o’r rhain yn uwchgyfeirio materion i’r ail ohonynt ar gyfer penderfyniad yn ôl y gofyn.

47 Roedd adroddiadau dyddiol ar y sefyllfa’n cael eu cynhyrchu a’r rheiny’n cynnwys ystod o ddangosyddion ansawdd gan gynnwys capasiti corffdai, cyfarpar diogelwch personol, absenoldeb oherwydd salwch, profi, a chyflenwadau meddygol/fferyllol. Roedd yr adroddiadau’n cael eu cyflwyno i Fforwm Cydnerthedd Lleol De Cymru i ddarparu ymwybyddiaeth am y sefyllfa ar gyfer yr holl bartneriaid ac i hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch materion a heriau a oedd yn dod i’r amlwg.

48 Fe wnaeth y Tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion gynnal trefniadau sicrhau ansawdd gweithredol y Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys cynnal adolygiadau o farwolaethau, ymchwilio i gwynion a digwyddiadau difrifol yn unol â Gweithio i Wella, monitro cydymffurfiaeth â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), ac ymdrin â gofynion adrodd blynyddol.

49 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu a gweithredu cynlluniau eglur i gynnal gwasanaethau hanfodol, ehangu capasiti gofal critigol, a sicrhau capasiti allanol i wneud yn siŵr bod cleifion â chanser anghymhleth a chyflyrau brys eraill yn cael triniaeth briodol yn ystod y pandemig. Cymerwyd camau hefyd i greu parthau o fewn ysbytai i wahanu cleifion COVID-19 a chleifion eraill yn ddiogel. Adroddwyd wrth y Bwrdd ar y trefniadau hyn ym mis Mai 2020.

50 Mae’r ffocws ar faterion ansawdd, diogelwch a phrofiad craidd ar lefel y Bwrdd wedi bod yn llai cadarn. Er bod y drefn o adrodd yn rheolaidd ar sicrwydd wedi cael ei haddasu i adlewyrchu sefyllfa COVID-19, ni chafodd y Bwrdd a’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad sicrwydd ar yr holl feysydd ansawdd a oedd wedi’u nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, roedd bylchau sylweddol o ran darparu adroddiadau sicrwydd ar fesurau atal a rheoli heintiau, yn ogystal â’r risg o niwed.

51 Fe gynhaliodd y Bwrdd Iechyd ffocws cryf ar faterion y gweithlu a lles staff ar lefel weithredol yn ystod y pandemig, gyda chelloedd cynllunio pwrpasol ar gyfer cyfarpar diogelwch personol a’r Gweithlu wedi’u sefydlu fel rhan o strwythur llywodraethu COVID-19. Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni, sy’n darparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch materion strategol sy’n ymwneud â’r gweithlu a lles staff, ei dynnu’n ôl pan oedd y pandemig ar ei anterth. O ganlyniad, roedd adroddiadau ar faterion a oedd yn ymwneud â’r gweithlu’n cael eu cyflwyno naill ai i Grŵp Llywodraethu’r Bwrdd neu i’r Bwrdd. Cafodd y Bwrdd adroddiadau sicrwydd ar y meysydd canlynol ym mis Mai 2020:

- cyflenwadau, canllawiau a hyfforddiant cyfarpar diogelwch personol;
- darparu adnoddau gan gynnwys recriwtio i gynyddu cyflenwad y gweithlu, lles staff, asesiadau risg staff, a lefelau absenoldeb; a
- lefelau staff nyrsio ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt oedolion (darparwyd diweddariad ar lafar ar gyfer y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2020).

52 Er bod y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni wedi’i adfer ym mis Gorffennaf 2020, ni chafodd unrhyw adroddiadau sicrwydd wedi’u diweddaru ar faterion a oedd yn ymwneud â’r gweithlu a lles staff. Mae adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Pwyllgor ar ddangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â’r gweithlu wedi cael eu hatal tan fis Medi 2020 hefyd.

# Rheoli adnoddau ariannol

53 Rhoddodd ein gwaith ystyriaeth i berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau i fonitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

54 Canfuom fod **rheolaethau a threfniadau monitro ac adrodd ariannol effeithiol wedi cael eu cynnal trwy gydol y pandemig, ond bod effaith COVID-19 yn creu risg sylweddol i allu'r Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir i fantoli'r cyfrifon ar gyfer y tair blynedd nesaf, ond mae ansicrwydd ynghylch costau COVID-19 yn creu risgiau sylweddol i gyflawni

#### Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd fantoli ei gyfrifon yn 2019-20 ac fe gyflawnodd ei ddyletswydd ariannol i fod â Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd. Ond, gyda diffyg o £37 miliwn dros gyfnod treigl o dair blynedd, methodd yn ei ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon o 2017-20

55 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd warged yn ystod y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 ond methodd â chyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2017 a 2020. Roedd y sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn yn warged o £58,000 gan ostwng ei sefyllfa dros y cyfnod treigl o dair blynedd i orwariant o £37 miliwn[4].

56 Er mwyn cyflawni'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn, adnabu'r Bwrdd Iechyd yr angen i gyflawni yn erbyn targed arbedion o £31.2 miliwn ar ddechrau 2019-20. Cafodd hwn ei ostwng yn ddiweddarach i £26.1 miliwn. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd cynlluniau arbedion yn eu lle i gyflawni gwerth £23 miliwn o arbedion ac fe gyflawnwyd y rheiny wedyn erbyn diwedd y flwyddyn. Trwy greu incwm ychwanegol a chyflawni enillion cyfrifyddiaeth fe lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei darged arbedion ar y cyfan o £26.1 miliwn.

57 Roedd y Bwrdd Iechyd wedi bwriadu lleihau ei ddiffyg sylfaenol o £36.3 miliwn yr adroddwyd arno ar ddechrau 2019-20 i £4.0 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Llwyddodd i leihau'r diffyg sylfaenol i £11.5 miliwn ac mae'r diffyg hwnnw wedi cael ei ddwyn ymlaen i 2020-21.

[4] Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2020, bydd dyled hanesyddol yn cael ei dileu gan Lywodraeth Cymru, ar yr amod bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd.

58 Arhosodd y Bwrdd Iechyd o fewn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf, ac fe atebodd ei ofyniad i fod â CTCI tair blynedd cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2019-2022 hefyd. O ganlyniad, fe isgyfeiriwyd y Bwrdd Iechyd i fonitro rheolaidd ym mis Medi 2019[5].

## Fe bennodd y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol mantoledig ar gyfer 2020-21, ond heb gyllid ychwanegol mae bellach yn rhagweld diffyg sylweddol o ganlyniad i COVID-19

59 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-2023 erbyn terfyn amser diwygiedig Llywodraeth Cymru, sef 31 Ionawr 2020. Nododd Llywodraeth Cymru fod y cynllun yn un y gellid ei gymeradwyo ond oherwydd COVID-19 bu oedi gyda'r broses CTCI. Roedd y CTCI yn nodi bwriad y Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2020-21. Roedd y cynllun yn cynnwys targed arbedion gofynnol o £29 miliwn ar gyfer 2020-21 i alluogi'r Bwrdd Iechyd i leihau'r diffyg sylfaenol o £11.5 miliwn ymhellach.

60 Cyn dechrau'r flwyddyn ariannol hon, roedd y Bwrdd Iechyd wedi adnabod cynlluniau arbedion a oedd yn gyfanswm o £14 miliwn. Fodd bynnag, oherwydd effaith COVID-19, mae hwn bellach wedi gostwng i £4.1 miliwn. Mae hwn yn cynnwys £3.3 miliwn o arbedion cylchol, a £0.8 miliwn o arbedion anghylchol. Ym mis pedwar, roedd wedi cyflawni £1.3 miliwn o arbedion, ac yn rhagweld sefyllfa diwedd blwyddyn o £4.1 miliwn o ran arbedion a fyddai wedi'u cyflawni.

61 Mae effaith COVID-19 wedi newid tirwedd ariannol y Bwrdd Iechyd yn sylweddol. Er ei fod yn dal i ragweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer ei weithrediadau craidd, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn rhagweld diffyg ar y cyfan o £131 miliwn (gostyngiad o ragolwg gwreiddiol o £182 miliwn ym mis un). Ym mis pedwar, nododd ddiffyg cronnus o £53 miliwn. Nodwyd fod gwariant a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â COVID-19 yn £52 miliwn, y mae'r mwyafrif ohono'n ymwneud yn uniongyrchol â'r costau sy'n gysylltiedig ag Ysbyty Calon y Ddraig.

62 Mae'r pwysau o ran costau COVID-19 a ragwelir ar gyfer y flwyddyn lawn yn uwch nag unrhyw fwrdd iechyd arall yng Nghymru, yn bennaf oherwydd costau Ysbyty Calon y Ddraig (yr ail ysbyty maes mwyaf yn y DU) ac maent yn seiliedig ar gael eu gwrthbwyso yn erbyn gostyngiadau mewn gwariant sy'n gysylltiedig ag atal gwaith dewisol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'n glir bod y ffigyrau a ragwelir ganddo ar gyfer diwedd y flwyddyn yn hynod gyfnewidiol, ac y bydd neu na fydd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i wrthbwyso'r costau llawn hyn. Fodd bynnag, mae'r rhagolwg yn tybio na cheir ail na thrydydd brig COVID-19 ond yn hytrach y ceir pwysau cyson trwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhagolwg hefyd yn tybio na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chapasiti ymchwydd y tu hwnt i 31 Hydref, gan bod y gweithlu'n gyfyngiad allweddol. Fodd bynnag, yn ystod mis Gorffennaf, cytunwyd wedyn y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddarparu capasiti

[5] Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru

ymchwydd o 400 o welyau, fel mesur wrth gefn i ochel rhag brigau pellach yn y galw, trwy ddatblygu ysbyty maes lled-barhaol ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru yn dilyn datgomisiynu Ysbyty Calon y Ddraig.

63 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £21 miliwn o gyllid COVID-19 hyd yma. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod â ffocws ar gyflawni ei gynllun sylfaenol ac nid yw wedi tybio y bydd yn cael unrhyw gyllid pellach gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cydnabod effaith llai o wariant ar ofal wedi'i gynllunio i wrthbwyso costau COVID-19, yn cadw ei amcangyfrif blynyddol o refeniw mor isel â phosibl ac yn adolygu ei ragolwg yn barhaus ochr yn ochr â chynlluniau gweithredol chwarterol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol iawn y bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu ariannu costau parhaus COVID-19 heb gyllid ychwanegol sylweddol neu newid i sefyllfa o ddiffyg wedi'i gynllunio.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd fwriadau clir i barhau i fantoli'r cyfrifon dros y tair blynedd nesaf, ond cafodd ei gynllun ei baratoi cyn yr achos o COVID-19

64 Fel rhan o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig, mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol tymor hwy ar gyfer y cyfnod 2020-2023. Mae'r cynllun yn rhagweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar gyfer 2021-2022 a 2022-2023 ac mae'n seiliedig ar amcangyfrifon o bwysau o ran chwyddiant a chostau, a chodiadau yn nyraniadau Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hefyd yn tybio y bydd gostyngiad yn y diffyg sylfaenol ac mewn arbedion wedi'u cynllunio o £20.5 miliwn yn 2021-2022 ac £16.5 miliwn yn 2022-2023.

65 Mae'r cynllun yn cydnabod nifer o risgiau ariannol allweddol i gyflawni y bydd angen ymdrechion ar y cyd i'w rheoli. Y risgiau yw:

- cyflawni arbedion effeithlonrwydd;
- rheoli pwysau gweithredol a chyfyngu ar gostau; a
- cyflawni Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth a chynlluniau ar gyfer y gaeaf.

66 Sefydlwyd y cynllun ariannol tair blynedd cyn yr achos o COVID-19 ac, felly, bydd y pandemig yn effeithio arno. Fel a nodir ym **mharagraff 60**, mae arbedion yn 2020-21 eisoes yn sylweddol ar ei hôl hi o'i gymharu â'r targed gwreiddiol, sy'n debygol o arwain at ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn, os na chaiff y gwahaniaeth ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Gallai hyn gael effaith negyddol ar allu'r Bwrdd Iechyd i leihau ei ddiffyg ariannol sylfaenol a mantoli'r cyfrifon dros y tair blynedd nesaf.

## Rheolaethau ariannol

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu o fewn rheolaethau ariannol presennol ac wedi sefydlu mecanweithiau i dracio gwariant sy'n ymwneud â COVID-19 yn glir

67 Ar ddechrau'r pandemig, fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd dempledi wythnosol i gofnodi'r holl gostau ychwanegol yr oedd yn eu hysgwyddo mewn perthynas â COVID-19. Mae'r rhain wedi cael eu bwydo i mewn i gofnod o gyfansymiau gwariant cronnus, ac maent yn cynnwys yr holl wariant refeniw a chyfalaf, ac yn ymgorffori costau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae'r templedi'n cofnodi'r disgrifiad, y gost, y cyfiawnhad a'r dull awdurdodi ar gyfer pob un o'r eitemau o wariant.

68 Ym mis Mai 2020, cafodd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd bapur a oedd yn nodi'r trefniadau llywodraethu ariannol yn ystod y pandemig. Roedd y papur yn nodi y byddai'r rheolaethau ariannol presennol a oedd wedi'u nodi yng Nghynllun Dirprwyo, Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd yn gymwys, gyda dim ond mân ddiwygiadau'n angenrheidiol mewn perthynas â chyfeirio at y grwpiau newydd a sefydlwyd yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd y papur yn cydnabod bod risg y byddai achosion o dorri'r Rheolau Sefydlog y byddid yn ymdrin â hwy trwy amrywiadau y byddai'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Bwrdd iddynt. Hyd yma, ni fu unrhyw achosion sylweddol o dorri'r Rheolau Sefydlog.

69 Mae Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd Iechyd yn caniatáu dirprwyo digonol ar gyfer y rhan fwyaf o bryniannau mawr, ond roedd cymeradwyaeth bellach yn digwydd trwy'r Grŵp Strategol, Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd neu'r Bwrdd llawn os oedd angen. Roedd Gweithredu gan y Cadeirydd ar gael hefyd ar gyfer unrhyw benderfyniad brys ynghylch gwariant sylweddol os oedd ei angen, er enghraifft gwariant ar gyfer sefydlu ysbyty maes, ond ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o hyn ar y cyfan.

70 Cafodd y cyfrifon blynyddol eu cwblhau erbyn y dyddiad terfyn diwygiedig, sef 22 Mai 2020. Ni wnaeth ein harchwiliad ni o'r datganiadau ariannol adnabod unrhyw faterion arwyddocaol a oedd yn awgrymu bod rheolaethau ariannol wedi cael eu gwanhau neu eu hosgoi.

71 Am dri mis cyntaf 2020-21, bu gan y Bwrdd Iechyd fynediad at welyau ysbyty annibynnol ychwanegol yn Ysbyty Spire i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Cafodd y capasiti hwn ei gomisiynu ar sail Cymru gyfan gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae penderfyniadau ynghylch argaeledd tymor hwy'r gwelyau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd Llywodraethu'r Bwrdd a'u cadarnhau gan y Bwrdd.

72 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu Ysbyty Calon y Ddraig. Bu rheolaethau ariannol cadarn yn eu lle gyda chryn dipyn o graffu ar y gwariant a ysgwyddwyd i sefydlu'r ysbyty maes yn cael ei gynnal trwy'r Pwyllgor Cyllid a'r Bwrdd. Ym mis Mehefin 2020, fe roddodd

Llywodraeth gomisiwn i KPMG i gynnal adolygiadau o ysbytai maes o ran diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys Ysbyty Calon y Ddraig. Mae'r adolygiad hwn wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar ond ar adeg ysgrifennu ein hadroddiad, nid oeddem wedi gallu gweld yr adroddiad terfynol.

73 Yn ystod y pandemig, bu cynnydd sylweddol yn nifer y rhoddion a chyfraniadau elusennol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cymhwyso'i Bolisi Safonau Ymddygiad i gofrestru rhoddion a chyfraniadau, er y rhoddwyd y gorau i gyfathrebu'n barhaus gyda staff ynghylch yr angen i gydymffurfio â'r polisi. Mae cyfraniadau sydd wedi bod yn dod i law'n ganolog wedi cael eu cofnodi, ac adroddwyd wrth y pwyllgor Cronfeydd Elusennol arnynt yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2020. Mae proses gynigion wedi cael ei datblygu i ddyrannu arian i wasanaethau rheng-flaen. Fodd bynnag, dim ond cyfran fach o'r cyfraniadau sydd wedi cael ei defnyddio hyd yma.

74 Mae trefniadau atal twyll rheolaidd wedi cael eu cynnal yn ystod y pandemig, er bod aelodau o'r Tîm Atal Twyll wedi cael eu hadleoli i roi cymorth i sefydlu Ysbyty Calon y Ddraig, gan felly leihau'r capasiti yn y maes hwn. Fodd bynnag, roedd yr aelodau hyn o staff yn dal i allu ymateb i faterion atal twyll, a bu Grŵp Llywio a Grŵp Rheoli Atal Twyll yn cwrdd yn wythnosol i drafod risgiau o ran atal twyll a oedd yn codi yn ystod y pandemig.

## Monitro ac adrodd

### Mae adroddiadau cynhwysfawr wedi bod o gymorth gyda chraffu a monitro amserol trwy gydol y pandemig, er bod cyfle i gynyddu tryloywder cyhoeddus

75 Yn ystod y pandemig, mae'r Bwrdd wedi cadw trosolwg gadarn ar sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd trwy ei Bwyllgor Cyllid a barhaodd i gwrdd yn fisol. Cafodd y Bwrdd adroddiadau amserol ym mhob un o'i gyfarfodydd. Hefyd, mae pedwar aelod o Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid.

76 Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd ar y sefyllfa ariannol yn gynhwysfawr gyda'r wybodaeth yn gyson â'r hyn a ddarparwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru trwy ffurflenni monitro misol. Mae'r adroddiadau'n darparu darlun eglur o'r sefyllfa, heriau a risgiau ariannol, a'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd. Maent hefyd yn cynnwys esboniadau o wariant sy'n ymwneud â COVID-19 a gwariant arall a lefel yr arbedion y mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu â'u cyflawni. Mae cofrestr risgiau ariannol benodol wedi cael ei sefydlu sy'n cynnwys risgiau ariannol sy'n ymwneud â COVID-19 a risgiau ariannol eraill. Ategir hon gan gofrestr risgiau ariannol benodol ar gyfer Ysbyty Calon y Ddraig, sy'n rhoi cyfrif am gyfran sylweddol o'r gwariant sy'n ymwneud â COVID-19. Caiff y cofrestrau risgiau ariannol eu goruchwylio gan y Pwyllgor Cyllid, er bod sicrwydd cyfyngedig yn cael ei ddarparu yn erbyn nifer o risgiau ar hyn o bryd oherwydd natur gyfnewidiol y sefyllfa ariannol a ragwelir.

77 Mae holl bapurau'r Pwyllgor Cyllid ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd, sy'n rhoi cyfle ar gyfer tryloywder cyhoeddus. Ac eithrio mis un a mis dau, roedd y papurau hefyd yn cynnwys sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd, ac fe'u cyflwynwyd i'r Bwrdd wedyn hefyd. Fel rhan o'i drefniadau adrodd safonol, mae adroddiadau ar yr holl Weithredoedd Tendr Sengl wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd a hynny mewn perthynas â gweithgarwch sy'n ymwneud â COVID-19 a gweithgarwch arall. Fodd bynnag, caiff yr adroddiadau hyn eu hystyried mewn cyfarfodydd preifat. I gynyddu tryloywder cyhoeddus, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio ystyried papurau sy'n ymwneud â'i reolaethau ariannol yng nghyfarfodydd cyhoeddus ei bwyllgorau.

78 Yn ystod y pandemig, cafodd yr Adolygiadau Gweithredol o Berfformiad eu hatal dros dro. Cafodd timau rheoli'r Bwrdd Clinigol eu hadleoli i'r strwythur safleoedd diwygiedig a sefydlwyd i ymateb i'r pandemig. Cyfrifoldeb y Grŵp Gweithredol fu rheolaeth ariannol COVID-19 ar lefel weithredol, gyda phenderfyniadau ariannol y tu allan i derfynau'r cynllun dirprwyo'n cael eu cyflwyno i'r Grŵp Strategol neu Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd i gael eu cymeradwyo.

# Cynllunio gweithredol

79 Fe wnaeth ein gwaith ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran datblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

80 Canfuom fod **cynlluniau gweithredol wedi cael eu goleuo gan waith cadarn i fodelu data ac wedi cael eu datblygu mewn ffordd amserol, a bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio cynnwys rhanddeiliaid yn fwy llawn mewn prosesau cynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae risgiau o hyd pe bai ail frig COVID-19, ac mae angen cryfhau trefniadau i fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun.**

## Datblygu'r cynllun

### Mae cynlluniau chwarterol y Bwrdd Iechyd wedi cael eu datblygu mewn modd amserol ac wedi cael eu goleuo gan brosesau cadarn i fonitro data

81 Cafodd achosion o COVID-19 eu canfod yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg am y tro cyntaf yn gynnar ym mis Mawrth 2020. Cyn hyn, aeth y Bwrdd Iechyd ati'n gyflym i sefydlu cynllun ac iddo dri cham ar gyfer lliniaru effaith yr ymchwydd a ragwelid yn y galw. Roedd cam un yn golygu ailbwrpasu ac ailgyflunio cyfran fawr o'i gyfleusterau er mwyn cynyddu i'r eithaf y capasiti gwelyau a oedd ar gael i gleifion COVID-19. Sefydlwyd cynllun rhannu'n barthau i ddarparu capasiti o ran

wardiau ar wahân ar gyfer cleifion y cadarnhawyd fod COVID-19 arnynt. Roedd cam dau yn golygu adnabod ardaloedd addas eraill y tu allan i'r capasiti gwelyau oedolion arferol pe bai'r galw'n sylweddol uwch na'r capasiti a oedd ar gael yn ysbytai'r Bwrdd Iechyd. Fel a nodwyd yn flaenorol, fe adeiladwyd ysbyty ymchwydd yn Stadiwm Principality – Ysbyty Calon y Ddraig.

82 Er bod y gwaith paratoi hwn wedi digwydd yn ystod y chwarter cyntaf i ymdrin â'r galw a oedd yn cael ei ragweld mewn perthynas â COVID-19, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnal rhaglen o wasanaethau hanfodol hefyd, gan ddarparu llawdriniaethau brys, triniaeth ar gyfer canser ac achosion eraill, trwy ddefnyddio capasiti ystafelloedd llawdriniaeth yn Ysbyty Spire. Mae clinigwyr wedi cael eu cynorthwyo i gynnal gwasanaethau trwy fynd ati'n gyflym i gyflwyno clystyrau meddygon teulu i sicrhau mynediad amserol at ofal brys.

83 Yn yr ail chwarter fe drawsnewidiwyd y ffordd yr oedd cleifion yn cael mynediad at wasanaethau meddygon teulu ac iechyd meddwl. Mae cynlluniau'n cael eu sefydlu yn awr i baratoi ar gyfer cynnydd a ragwelir yn yr angen am wasanaethau iechyd meddwl a chymorth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth sy'n dychwelyd i'r ysgol yn yr ail chwarter.

84 Cafodd y ddau gynllun eu cynhyrchu'n gyflym a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar amser. Cafodd y ddau gynllun eu hystyried a'u cymeradwyo gan Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd cyn eu cyflwyno, a'u cymeradwyo'n ôl-weithredol gan y Bwrdd. Cafodd cynllun yr ail chwarter ei gyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ar gyfer craffu a herio ôl-weithredol ym mis Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, ar gyfer cynlluniau chwarterol yn y dyfodol, mae Aelodau Annibynnol wedi gofyn i'r Bwrdd Iechyd sefydlu mecanwaith i'w galluogi hwy i gael mwy o fewnbwn i ddatblygu'r cynlluniau cyn eu bod yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

85 Mae'r cynlluniau wedi bod yn gyson ar y cyfan â fframwaith cynllunio gweithredol y GIG ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i adborth gan Lywodraeth Cymru. Mewn rhai meysydd o fewn cynllun y chwarter cyntaf, awgrymodd Llywodraeth Cymru fod y Bwrdd Iechyd wedi tangyfleu ei gyflawniadau, felly mae cynllun yr ail chwarter wedi darparu rhagor o fanylion yn y meysydd hyn.

86 Gan bod angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio'i adnoddau ar ei ymateb brys i COVID-19, fe effeithiodd hyn yn sylweddol ar ei weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y chwarter cyntaf. Mae gwelliannau yn yr arfaeth i weithgarwch ymgysylltu yn yr ail chwarter, er enghraifft:

- ymgysylltu'n rheolaidd â'r CIC, gan gynnwys cyfarfodydd ar lefel y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd a chyfarfodydd i drafod materion penodol gan gynnwys y Cynllun Cyflenwi Gwasanaethau;
- Cyfarfod Rheoli Gweithredol ar y cyd gyda phartneriaid Awdurdodau Lleol yn cael ei gynnal yn wythnosol;
- cyfarfodydd rheolaidd gan grwpiau allweddol dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i oruchwylio'r ymateb brys cydweithredol ar draws meysydd iechyd a gofal cymdeithasol; a

- rhannu Briff Rhanddeiliaid Allweddol COVID-19 wythnosol yn gyfrinachol gyda phartneriaid dibynadwy gan gynnwys y CIC, Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol, cynghorwyr lleol, Pwyllgorau Meddygol Lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Fforwm Partneriaeth Lleol a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

87 Mae modelu data wedi bod yn rhan annatod o ymwybyddiaeth sefyllfaol a phrosesau penderfynu'r Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig. Mae wedi bod yn gweithio'n gyflym gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu system goruchwyliaeth, gan ymgorffori dangosyddion rhybudd cynnar, i fonitro mynychder ac effaith y feirws ar y lefel leol. Mae wedi goleuo ymarferion modelu'r capasiti/galw ar gyfer cynllunio gweithredol, yn enwedig os ceir ail frig COVID-19, ac ar y cyd â dull 'ffrydiau cleifion' ac 'offeru' y Bwrdd Iechyd sy'n rhan o'i Fodel Gweithredu ar y cyfan ar gyfer COVID-19.

88 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu llawfeddygaeth ddewisol gymhleth a thrydyddol ar gyfer rhanbarth De Cymru. Yn yr ail chwarter, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos gyda chomisiynwyr a darparwyr partner i sicrhau bod gwasanaethau rhanbarthol a thrydyddol â'r mwyaf o heriau'n cael eu diogelu. Mae gwaith â ffocws penodol yn mynd rhagddo mewn nifer o arbenigeddau, gan gynnwys radioleg ymyraethol, llawfeddygaeth canser gastroberfeddol uchaf, gastroenteroleg bediatrig, a niwroleg bediatrig. Fodd bynnag, er mwyn darparu'r holl lawdriniaethau (a mynd i'r afael â'r ôl-groniad) bydd angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddefnyddio Ysbyty Spire am weddill y flwyddyn ariannol (gweler **paragraff 93** am ragor o fanylion).

89 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi ailsefydlu ei bartneriaeth darparwyr arbenigol a thrydyddol gyda BIP Bae Abertawe ac mae'n ailgychwyn trafodaethau gyda BIP Cwm Taf Morgannwg ynghylch nifer o wasanaethau bregus, lle bydd gwasanaeth cydweithredol/rhwydweithiol yn darparu model gwasanaethau mwy cynaliadwy. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd nodi dyhead hefyd yn ei gynllun ar gyfer yr ail chwarter i ganlyn arni â thrafodaethau rhanbarthol ynglŷn ag offthalmoleg niferoedd uchel, yn enwedig llawfeddygaeth cataract lle bydd ôl-groniad sylweddol ar ôl COVID-19.

## Adnoddau i gyflawni'r cynllun

### Fe ymatebodd y Bwrdd Iechyd yn gyflym i sicrhau digon o adnoddau yn ystod y chwarter cyntaf, gyda defnydd parhaus o ysbyty annibynnol yn ddibyniaeth allweddol ar gyfer cyflawni gweithgarwch wedi'i gynllunio yn yr ail chwarter, ond mae risgiau'n dal i fod os ceir ail frig COVID-19

90 Cyn dechrau'r pandemig, roedd gweithlu'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi cael ei adnabod fel risg arwyddocaol gyda heriau cynyddol o ran gallu recriwtio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Roedd cofrestr risgiau corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys nifer o risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r gweithlu meddygol a nyrsio. Ar ddechrau'r pandemig, roedd y Bwrdd Iechyd yn wynebu her sylweddol o ran darparu adnoddau a 'storm berffaith' o ran ffigyrau absenoldeb uchel ac oddeutu 650 o aelodau o staff yr oedd angen iddynt warchod. Gweithiodd y Bwrdd Iechyd yn fewnol i recriwtio a llwyddodd i recriwtio 1,200 o aelodau o staff mewn cyfnod byr iawn am gost ychwanegol sylweddol.

91 Er bod recriwtio staff ychwanegol wedi bod o gymorth i ymdrin â chyfnod brys y pandemig, bu'n rhaid i staff addasu'n gyflym i'r her trwy fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio, adleoli i feysydd a oedd yn flaenoriaeth ac ymateb i'r gofynion o ran atal a rheoli heintiau. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae cyflenwad ac argaeledd y gweithlu'n dal i fod yn risg allweddol i'r Bwrdd Iechyd wrth i waith barhau i gynyddu'r ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol ac ailgychwyn gweithgarwch rheolaidd a pharatoi ar gyfer unrhyw ail frig COVID-19. Nid yw'n gwbl glir a fyddai gweithlu cyfredol y Bwrdd Iechyd yn gallu ymdopi â'r galw pe ceid ail frig COVID-19. Yn ystod yr ail chwarter, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i flaenoriaethu cymorth parhaus i staff sy'n gwarchod, gan gynnwys trefniadau gweithio pan fo'r cyfnod gwarchod yn dod i ben, amddiffyn grwpiau o staff sy'n Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a darparu ystod o fentrau cymorth ar gyfer lles staff.

92 Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau sylweddol o ran taro cydbwysedd rhwng yr angen i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn dychwelyd ar y naill law a sicrhau diogelwch cleifion a staff ar y llaw arall, gan hefyd reoli'r sefyllfa o ran COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Rhaglen Ddysgu ac mae'n archwilio ystod o opsiynau, gan gynnwys: ffyrdd newydd o weithio, dull mwy amlddisgyblaethol, mwy o recriwtio, gweithwyr meddygol a phroffesiynol yn dychwelyd i'r gwaith, newidiadau i gontractau addysgol darpar nyrsys, a mwy o ddibyniaeth ar Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd i sicrhau bod pob maes yn cael ei staffio'n briodol. Er bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu parhau â'r holl wasanaethau hanfodol yn ystod yr ail chwarter, ni fydd rhai meysydd yn gweithio i'r un capasiti ag yr oeddent cyn y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys llawfeddygaeth y galon, y ganolfan trawma mawr, gastroenteroleg, cleifion mewnol pediatrig a gwasanaethau cymunedol, a chanser wrolegol.

93 Trwy gydol y pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal llawfeddygaeth lefel 1a a lefel 1b a'r rhan fwyaf o lawfeddygaeth lefel 2. Er bod gan y Bwrdd Iechyd y capasiti ffisegol o ran ystafelloedd llawdriniaeth i ateb y galw ar lefel 3, mae'n debygol y bydd diffyg o ran staffio ystafelloedd llawdriniaeth oni bai bod trwygyrch ystafelloedd llawdriniaeth yn gallu gwella'n sylweddol nes eu bod yn nes at y lefelau cyn COVID-19. Os nad yw Ysbyty Spire ar gael am weddill y flwyddyn ariannol, byddai hyn yn arwain at ostyngiad uniongyrchol yn y capasiti ar gyfer gweithgarwch brys a gweithgarwch sy'n sensitif i amser. Hyd yn oed gydag Ysbyty Spire, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd ganddo'r capasiti i drin cleifion lefel 4 mewn unrhyw niferoedd sylweddol. O ran capasiti ymchwydd, mae cynlluniau ar waith i ddatblygu ysbyty maes lled-barhaol ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru i ddarparu 400 o welyau yn dilyn datgomisiynu Ysbyty Calon y Ddraig.

94 Bydd ffocws y Bwrdd Iechyd yn yr ail chwarter ar aros yn effro i fygythiad COVID-19 a bwrw ymlaen â gofal priodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn amcanu at 'drawsnewid yn gyflym a chanolbwyntio ar y tymor hir'. Mae cyflenwad ac argaeledd y gweithlu'n dal i fod yn risg allweddol wrth i waith barhau i gynyddu'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau a gweithgarwch gan baratoi ar yr un pryd ar gyfer unrhyw ail frig COVID-19.

95 Mae'r pandemig wedi cyflymu rhai o gynlluniau tymor hwy y Bwrdd Iechyd, yn fwyaf arwyddocaol mewn perthynas â gweithredu clystyrau meddygon teulu a defnyddio platfformau digidol. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd bod mynediad at rai gwasanaethau wedi bod yn well yn ystod y pandemig trwy ddefnyddio brysbennu rhithwir er enghraifft mewn gofal sylfaenol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion ar weithio'n rhithwir. Fodd bynnag, mae angen dal i fod yn ymwybodol bod ar rai cleifion angen cael mynediad at wasanaethau mewn ffyrdd gwahanol i rai digidol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd camau cadarnhaol, rhagweithiol trwy gyflwyno ei fenter CAV24/7 i geisio osgoi materion posibl a fydd yn dod i'r amlwg wrth i bresenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys gynyddu yn ôl y disgwyl dros yr ail chwarter.

## Monitro'r modd y cyflawnir y cynllun

### Er bod trefn wedi'i symleiddio ar gyfer adrodd ar berfformiad wrth y Bwrdd wedi gweithredu yn ystod yr ymateb i COVID, yn awr mae angen datblygu'r trefniadau adrodd a chraffu ar gyfer cyflawni'r cynllun gweithredol

96 Ar ddechrau'r pandemig, fe wnaeth Llywodraeth Cymru atal trefniadau monitro perfformiad. Maent yn dal wedi'u hatal i raddau helaeth, ond cafodd rhai trefniadau ar gyfer cyflwyno data i Lywodraeth Cymru eu hadfer ym mis Mehefin 2020. Mae'r trefniadau cenedlaethol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn dal i fod wedi'u hatal tan 30 Medi 2020 ar y cynharaf.

97 Roedd fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb i COVID-19 yn nodi pedwar math o niwed yr oedd angen i Fyrddau Iechyd ymdrin â hwy mewn ffordd gytbwys, sef:

- niwed o ganlyniad i COVID-19;
- niwed o ganlyniad i GIG a system ofal sydd wedi'u gorlethu;
- niwed o ganlyniad i ostyngiad mewn gweithgarwch nad yw'n ymwneud â COVID-19; a
- niwed o ganlyniad i gamau gweithredu cymdeithasol ehangach/cyfyngiadau symud.

98 O ganol mis Mawrth 2020, fe newidiodd ffocws y Bwrdd Iechyd i reoli COVID-19 a chynnal gwasanaethau hanfodol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Ym mis Ebrill 2020, fe eglurodd y Bwrdd Iechyd ei drefniadau rheoli perfformiad. Mewn cyferbyniad â Byrddau Iechyd eraill sy'n datblygu fframwaith rheoli perfformiad sy'n seiliedig ar y pedwar math o niwed, yn lle hynny mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn canolbwyntio ar adrodd ar berfformiad dim ond ar gyfer dangosyddion penodol mewn perthynas â gwasanaethau hanfodol. Y rhain yw: Canser, Gofal Llygaid, a Damweiniau ac Achosion Brys. O fis Mehefin 2020 ymlaen, fe ehangwyd hyn fel ei fod hefyd yn cynnwys gofal heb ei drefnu, amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, iechyd meddwl, a diagnosteg a llawdriniaethau. Wrth edrych tua'r dyfodol, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried mesurau ar draws y pedwar cwadrant niwed a nodir yn fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru, megis y niwed a achosir gan ostyngiad mewn gweithgarwch.

99 O ran monitro'r cynlluniau gweithredol, nid oes arwydd sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio yn erbyn set o gamau gweithredu mesuradwy. Nid yw cynllun yr ail chwarter yn cynnwys crynodeb o gynnydd yn erbyn cynllun y chwarter cyntaf. Er bod cynlluniau gweithredol y ddau chwarter yn darparu manylion gweithgarwch, nid oes unrhyw dystiolaeth o gynllun gweithredu, gyda cherrig milltir allweddol, mesurau a deilliannau bwriadedig. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried cynnwys yr wybodaeth hon mewn cynlluniau yn y dyfodol, yn ogystal â datblygu ei drefniadau trosolwg a chraffu.

100 Mae heriau yn y cynllun o hyd ac mae ansicrwydd sylweddol o hyd y bydd angen ei ddatrys yn ystod y trydydd a'r pedwerydd chwarter, yn enwedig mewn perthynas â chyllid, cynnal lles y gweithlu, ymateb i'r pwysau dros y gaeaf, a hefyd effaith barhaus COVID-19 ar anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 2: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A1 Gan gydnabod yr heriau niferus a wynebwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod brig cyntaf COVID-19, dylai'r Bwrdd fyfyrio ynghylch ei brofiadau o lywodraethu yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu yn y dyfodol yn gyffredinol ac os ceir ail frig COVID-19. Wrth fyfyrio ynghylch ei brofiadau, dylai'r Bwrdd ganolbwyntio'n arbennig ar:<br>a. ystyried yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn na weithiodd cystal, ac adnabod beth fyddai'n ei wneud yn wahanol pe ceid ail frig COVID-19;<br>b. cadarnhau pa ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd yn ystod y pandemig y mae arno eisiau eu cadw yn y dyfodol;<br>c. cefnogi datblygiad y cnewyllyn llawn o Aelodau Annibynnol yn ogystal â chyfoethogi eu rôl a'u mewnbwn; a<br>ch. gwella trefniadau adrodd a thryloywder y Bwrdd. | Fe wnaed llawer o waith ar wersi a ddysgwyd yn y Bwrdd Iechyd a hwnnw'n cwmpasu llawer o wahanol swyddogaethau ac mae'r gwersi hyn wedi ystyried sylwadau gan Archwilio Cymru, y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a KPMG. Mae hyn wedi cynnwys gwersi a ddysgwyd o safbwynt llywodraethu a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer yr hwrdd nesaf, a hyrddiau COVID-19 yn y dyfodol. Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Gweithredol, Grŵp Llywodraethu'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, a'r Bwrdd i sicrhau bod y gwersi hyn yn cael eu dysgu a'u rhoi ar waith. Bydd yr adroddiad hwn yn cwmpasu eitemau a, b, c, a d o'r argymhelliad. | 30 Tachwedd 2020 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/ Prif Weithredwr/ Cadeirydd y Bwrdd |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.